OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

## 2013 Rhif 771 (Cy. 94)

## TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

# Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Bwrdeistref Sirol Wrecsam) (Cyfyngiad a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2013.

*Gwnaed* *28 Mawrth 2013*

*Yn dod i rym* *8 Ebrill 2013*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd Abertawe – Manceinion (yr A483) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig a'i wahardd ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt;

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) a phob pŵer galluogi arall(2), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Dehongli a Chychwyn**

**1.**Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 8 Ebrill 2013. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Bwrdeistref Sirol Wrecsam) (Cyfyngiad a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2013.

**2.** Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod sy'n dechrau am 19:00 o'r gloch ar 8 Ebrill 2013 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y darnau o'r gefnffordd” (“*the lengths of the trunk road*”) yw'r brif gerbytffordd a'r ffyrdd ymuno ac ymadael ar hyd y darnau o Gefnffordd Abertawe – Manceinion (yr A483) ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam fel y’u disgrifir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

(1) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**Cyfyngiad a Gwaharddiadau**

**3.**Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, fynd yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a ddisgrifir yn yr Atodlen.

**4.**Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar y darnau o'r gefnffordd a ddisgrifir yn yr Atodlen.

**5.**Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio cerbyd na chaniatáu i gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, gael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darnau o'r gefnffordd ar adegau pan fo'r cyfyngiad y cyfeirir ato yn erthygl 3 yn weithredol.

**Cymhwyso**

**6.**Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4 a 5 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y cyfyngiad a'r gwaharddiadau y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

**Atal Dros Dro**

**7.**Mae darpariaethau Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Cyfnewidfa Gresford, Wrecsam) (Dileu Cyfyngiadau) 2003(**3**) wedi eu hatal dros dro drwy hyn mewn cysylltiad â’r darnau o gefnffordd a bennir yn erthygl 2 ar yr adegau hynny pan fo’r cyfyngiad a bennir yn erthygl 3 yn weithredol.

**8.** Mae darpariaethau Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Ffordd Osgoi Cefn Bychan, Bwrdeistref Sirol Wrecsam) (Codi Cyfyngiadau) 2003(**4**) wedi eu hatal dros dro drwy hyn mewn cysylltiad â’r darn o'r gefnffordd a bennir yn erthygl 2 ar yr adegau hynny pan fo’r cyfyngiad a bennir yn erthygl 3 yn weithredol.

**9.**Mae darpariaethau Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Ffordd Osgoi Rhiwabon a Chefn Bychan, Rhiwabon, Clwyd) (Codi Cyfyngiadau) 1991(**5**) wedi eu hatal dros dro drwy hyn mewn cysylltiad â’r darn

o'r gefnffordd a bennir yn erthygl 2 ar yr adegau hynny pan fo’r cyfyngiad a bennir yn erthygl 3 yn weithredol.

**Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**10.**Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 12 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 28 Mawrth 2013.

***R Morgan***
**R MORGAN**
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru.

**(1)** 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.
**(2)** Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.
**(3)** O.S. 2003/609/Cy.82
**(4)** O.S. 2003/3372/Cy.325
**(5)** O.S. 1991/2848

## YR ATODLEN

Darnau o'r gefnffordd ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam.

1. Y darn hwnnw o’r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 800 o fetrau i'r de o ganolbwynt Cyffordd 1 (Cyfnewidfa Rhiwabon) hyd at bwynt 800 o fetrau i'r gogledd o ganolbwynt Cyffordd 2 (Cyfnewidfa Johnstown).

2. Y darn hwnnw o’r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 800 o fetrau i'r de o ganolbwynt Cyffordd 2 (Cyfnewidfa Johnstown) hyd at bwynt 800 o fetrau i'r gogledd o ganolbwynt Cyffordd 3 (Cyfnewidfa Croesfoel).

3. Y darn hwnnw o’r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 800 o fetrau i'r de o ganolbwynt Cyffordd 3 (Cyfnewidfa Croesfoel) hyd at bwynt 800 o fetrau i'r gogledd o ganolbwynt Cyffordd 4 (Cyfnewidfa Ffordd Rhuthun).

4. Y darn hwnnw o’r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 800 o fetrau i'r de o ganolbwynt Cyffordd 4 (Cyfnewidfa Ffordd Rhuthun) hyd at bwynt 800 o fetrau i'r gogledd o ganolbwynt Cyffordd 5 (Cyfnewidfa Ffordd yr Wyddgrug).

**5.** Y darn hwnnw o’r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 800 o fetrau i'r de o ganolbwynt Cyffordd 5 (Cyfnewidfa Ffordd yr Wyddgrug) hyd at bwynt 800 o fetrau i'r gogledd o ganolbwynt Cyffordd 6 (Cyfnewidfa Gresffordd).

**6.** Y darn hwnnw o’r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 800 o fetrau i'r de o ganolbwynt Cyffordd 6 (Cyfnewidfa Gresffordd) hyd at bwynt 800 o fetrau i'r gogledd o ganolbwynt Cyffordd 7 (Cyfnewidfa’r Orsedd).

**7.** Y darn hwnnw o’r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 800 o fetrau i'r de o ganolbwynt Cyffordd 7 (Cyfnewidfa’r Orsedd) tua'r gogledd hyd at y ffin rhwng Cymru a Lloegr.